Y Comisiwn Etholiadol

The Electoral Commission

David Rees AS
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

27 Medi 2021

Annwyl Gadeirydd

Rwyf yn falch i allu ddarparu Prif Amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Mae wedi ei selio ar ein Cynllun Corfforaethol pum mlynedd ar gyfer y cyfnod 2022/23 i 2026/27.

Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl, mae'r amcangyfrif a'r naratif cysylltiedig yn nodi sut rydyn ni'n bwriadu cefnogi cyflwyno a rheoleiddio etholiadau yng Nghymru yn 2022/23. Mae hyn yn cynnwys gweithgaredd a'r adnodd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ddiwygiad etholiadol arfaethedig y mae'r Senedd yn deddfu ar ei gyfer.

Mae'r Cynllun Corfforaethol drafft yn nodi pum amcan strategol ar gyfer y cyfnod. Mae'r rhain yn ceisio cynnal y safonau uchel ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system etholiadol, yn ogystal â mynd i'r afael â straen a meysydd i'w datblygu i wella cryfder democratiaeth yng Nghymru a'r DU ehangach ymhellach.

Ein hamcanion strategol

Cofrestru a phleidleisio hygyrch

Byddwn yn parhau i geisio cael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl rhag cofrestru neu fwrw eu pleidlais. Ochr yn ochr â'n gweithgareddau parhaus i annog pleidleiswyr i gofrestru ac amddiffyn rhag twyll etholiadol, byddwn yn gweithio i gadw hyder pleidleiswyr mewn ymgyrchu gwleidyddol wrth iddo esblygu.

Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a cyllid gwleidyddol cydffurfiol

Byddwn yn cefnogi pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r gyfraith, wrth barhau i sicrhau bod cyllid gwleidyddol yn dryloyw.

Gwasanaethau etholiadol lleol gwydn

Byddwn yn cefnogi awdurdodau lleol i gwrdd â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol sy'n eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau etholiadol sy'n cael eu rhedeg yn dda. Byddwn hefyd yn cefnogi gweinyddwyr etholiadol i addasu i'r dull

cynyddol amrywiol o ymdrin â'r ffordd y mae etholiadau'n cael eu cyflwyno, yn sgil datganoli ac anghenion newidiol pleidleiswyr.

Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol

Yn ystod cyfnod y cynllun hwn, byddwn yn gweithio gydag eraill i sicrhau newidiadau yn y gyfraith etholiadol, gan sicrhau ei fod yn cadw i fyny â datblygiadau eraill yn ein cymdeithas, gan harneisio technoleg a gweithio ar broses foderneiddio barhaus.

System etholiadol fodern a chynaliadwy

Byddwn hefyd yn gweithio gydag eraill i sicrhau newidiadau yng ngweithrediad y system etholiadol i sicrhau ei fod yn gallu gwrthsefyll newidiadau mewn cymdeithas. Yn hanfodol i hyn fydd ystyried datblygiadau mewn technoleg ddigidol, ceisio atebion cynaliadwy a gwella cydlyniad ac effeithlonrwydd y ffordd rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r system etholiadol.

Sicrhau bod Comisiwn wedi'i gyfarparu i sicrhau buddion i'r system etholiadol

Yn sail i'r cynllun mae'r gofyniad i ddarparu gwerth am arian a chynnal sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda. Mae'r cynllun yn ymgorffori ffocws o'r newydd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac mae wedi'i gynllunio i annog ymgysylltiad staff, datblygu sgiliau a defnyddio'r dechnoleg sy'n ofynnol i gefnogi ffyrdd effeithiol o weithio a dysgu a gwella parhaus.

Cyflawni gwerth am arian

Nodir cyllidebau arfaethedig y Comisiwn yn y Cynllun Corfforaethol. Wrth baratoi'r cyllidebau hyn rydym wedi ystyried yr ystyriaethau a nodwyd yn llythyr y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 2 Awst ac wedi defnyddio'r fformiwla ariannu y cytunwyd arni.

Rydym yn falch o allu cadarnhau y bydd cyfraniad cynlluniedig y Senedd yn is mewn termau real erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Corfforaethol nag yn 2021/22. Byddwn wrth gwrs yn parhau i adolygu ein cyllidebau ac mae'r cynllun arfaethedig yn cynrychioli ein barn gyfredol am y cyllidebau uchaf. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau gwerth am arian, a chydnabyddiaeth o'r sefyllfa ariannol, gan ganiatáu inni ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd diweddarach, er enghraifft mewn perthynas â diwygio etholiadol. Rydym hefyd yn nodi ac yn croesawu y gall Llywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd ofyn am gyngor a chymorth gan y Comisiwn ar faterion penodol sy'n ymwneud ag etholwyr. Byddai hyn yn ychwanegol i'r cyllid a ddarperir gan y Senedd.

Fel sydd yn arferol, mae'r proffil gwariant yn adlewyrchu yr amserlen etholiadol. Bydd y Pwyllgor wrth gwrs yn nodi bod y cyfraniad ar ei uchaf yn 2025/26, gan gynrychioli paratoadau ar gyfer etholiadau'r Senedd a drefnwyd yn 2026. Yn yr un modd, fodd bynnag, mae'r cyfraniad yn disgyn yn sylweddol yn 2022/23, gan adlewyrchu amserlen yr etholiadau yng Nghymru. Mae'r rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r cynllun yn cynnwys nid yn unig amseriad etholiadau perthnasol ond hefyd gyfradd chwyddiant (datchwyddwr

CMC) a setliadau cyflog (y tybir eu bod yn 1% ar gyfartaledd dros flynyddoedd). Y risgiau allweddol yw newidiadau i'r rhagdybiaethau hyn. Pe bai'r ffigurau chwyddiant cyfredol sy'n sail i'r cyllidebau yn newid i raddau na ellid eu cyfaddasu i'r cynlluniau hyn, efallai y bydd angen i'r Comisiwn ddiwygio'r cyllidebau a ragwelir i sicrhau na fyddant yn uwch mewn termau real ar ddiwedd y cyfnod nag yn y dechrau.

Gan droi at y flwyddyn ariannol nesaf (2022/23) yn benodol, mae cyfanswm y cyfraniad yn sylweddol is na 2021/22, fel y nodwyd uchod. Mae hyn yn dal i ganiatáu inni gyflawni ein hagenda sylweddol yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn ystod y 12 mis nesaf bydd gwaith y Comisiwn yng Nghymru yn canolbwyntio ar gyflawni a gwerthuso etholiadau llywodraeth leol 2022. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y gymuned etholiadol ehangach yng Nghymru yn parhau i fod â'r gwytnwch i ymdopi â'r amgylchedd cyfnewidiol. Bydd hyn unwaith eto yn cadw pleidleiswyr ar flaen y gad wrth gynllunio fel eu bod yn gallu cymryd rhan yn hyderus gan ddefnyddio eu dull o ddewis wrth bleidleisio. Byddwn hefyd yn cefnogi, yn herio ac yn monitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau, a byddwn yn cyhoeddi adroddiad statudol ar yr etholiadau.

Disgwyliwn hefyd weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Senedd ar y rhaglen helaeth o ddiwygio etholiadol a all fod yn berthnasol i etholiadau datganoledig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwaith o amgylch unrhyw gynlluniau peilot ar gyfer 2022. Bydd y gwaith o ddatblygu rhaglen addysg i sicrhau bod pleidleiswyr hefyd yn parhau- yn enwedig y rhai sydd newydd eu rhyddfreinio - yn ymwybodol o'u hawliau democrataidd.

Mesur perfformiad


Mae Adran 10 y Cynllun Corfforaethol drafft yn cynnwys mesurau perfformiad, sydd hefyd yn cael eu cynnwys yn Atodiad 1.Mae gennym rôl allweddol i weithio gyda phartneriaid eraill yn y system etholiadol. Rydym wedi cynnwys nifer o fesurau perfformiad sy'n 'ddangosyddion partneriaeth', gan fod ein gwaith ynghyd â gwaith eraill yn effeithio ar berfformiad yn y rhannau hynny o'r system.

Bydd cyfle yn gynnar yn 2022, gyda budd o ddata a meincnodi pellach, i'r Comisiwn osod targedau ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun (2022/23). Bydd hyn hefyd yn llywio'r targedau ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei adlewyrchu yn fersiwn derfynol y Cynllun Corfforaethol y byddwn yn ei gyflwyno ichi yn gynnar yn 2022.


Gobeithio eich bod yn cytuno bod y Cynllun Corfforaethol yr ydym yn ei gynnig yn briodol i fynd i'r afael â maint a natur yr heriau sydd wrth law ac yn y pen draw bydd yn arwain at fwy o hyder y cyhoedd yn ein system etholiadol. Byddwn yn mesur effaith ein gweithgareddau a gynlluniwyd trwy gydol cyfnod y cynllun hwn i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r heriau a amlinellir uchod.

Rydym yn cymeradwyo'r amcangyfrif atodedig a'r Cynllun Corfforaethol i Bwyllgor y Llywydd, ac edrychwn ymlaen at eu trafod â chi pan fydd yn addas gwneud hynny.

Yn gywir



Dame Elan Closs Stephens CBE
Comisiynydd Etholiadol - Cymru



Bob Posner
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu,
Comisiwn Etholiadol

Atodiad 1 - Mesur perfformiad

Amcanion strategol	Gwelliannau	Dangosyddion perfformiad
1. Systemau cofrestru a phleidleisio hawdd eu defnyddio	Trefniadau mwy hwylus ar gyfer cofrestru a phleidleisio	Boddhad y cyhoedd â'r system cofrestru i bleidleisio
		Boddhad y cyhoedd â'r broses bleidleisio
		Cywirdeb y gofrestr etholiadol
		Cyflawnrwydd y gofrestr etholiadol
		Nifer y pleidleisiau a gaiff eu gwrthod ac na chânt eu cynnwys yn y broses gyfrif mewn etholiadau
		Canfyddiad y cyhoedd fod y broses bleidleisio yn hawdd
		Ychwanegiadau at gofrestrau etholiadol yn ystod ein hymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth
2. Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol sy'n cydymffurfio â'r rheolau	Cynnal y wybodaeth ar gael	Cyhoeddi adroddiadau am roddion a benthyciadau o fewn y terfynau amser
		Cyhoeddi datganiadau o gyfrifon o fewn y terfynau amser
	Mwy o hyder yn y broses o wneud penderfyniadau	Caiff ymgeiswyr eu hysbysu am ganlyniad eu cais i gofrestru o fewn y targedau o ran diwrnodau gwaith
		Cyhoeddi penderfyniadau am hysbysiadau terfynol am sylwadau o fewn y terfynau amser
		Hynt a chasgliadau ymchwiliadau o fewn y targedau a lefelau cymhlethdod
	Mwy o gydymffurfiaeth â chyfraith etholiadol	Ymatebion i geisiadau am gyngor rheoleiddiol ar adrodd ariannol o fewn targedau
		Canfyddiad y cyhoedd y bydd yr awdurdodau'n cymryd camau priodol os canfyddir bod plaid neu ymgyrchydd yn torri'r rheolau ynghylch cyllid ymgyrchu

Amcanion strategol	Gwelliannau	Dangosyddion perfformiad
3. Gwasanaethau etholiadol lleol cadarn	Ansawdd gwasanaethau etholiadol yn cael ei gynnal	Asesiad perfformiad ffurfiol yn cael ei gynnal ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau pan na chaiff safonau eu cyrraedd
		Cyhoeddi canllawiau ar gyfer gweinyddwyr etholiadol ar amser heb wallau sylweddol
		Hyder bod etholiadau yn cael eu cynnal yn effeithiol
		Cyhoeddi adroddiadau ar etholiadau o fewn y terfynau amser
	Hyder y cyhoedd yn y broses etholiadol yn cael ei gynnal	Hyder y cyhoedd o ran gwybod sut i gofrestru i bleidleisio
		Hyder y cyhoedd o ran gwybod sut i fwrw eu pleidlais
4. Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol	Mwy o atebolrwydd seneddol	Y llywodraeth berthnasol yn ymateb i adroddiadau ar etholiadau, adroddiadau ar refferenda ac adroddiadau eraill o fewn y terfynau amser
		Cyflwyno ymatebion i gynigion polisi ac ymgyngoriadau deddfwriaethol o fewn y terfynau amser
		Ymateb i ohebiaeth Aelodau o'r Senedd o fewn y terfynau amser
5. System etholiadol fodern a chynaliadwy	System etholiadol fwy diogel	Canfyddiad y cyhoedd bod pleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd
	Cynnydd mewn cynaliadwyedd amgylcheddol	I'w bennu pan fydd deddfwriaeth amgylcheddol mewn grym

Mae’r amcanion strategol wedi eu selio gan dri brif ffactor

Ffactorau allweddol	Gwelliannau	Dangosyddion perfformiad
1. Rydym yn arddangos annibyniaeth a hygrededd	Gwell enw da fel rheoleiddiwr annibynnol	Ymateb i gwestiynau Seneddol llafar ac ysgrifenedig o fewn terfynau amser
		Ymateb i geisiadau am gyngor gan Swyddfa Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau cyn dyddiadau cau
		Ymateb i geisiadau am ganllaw etholiadau gan ymgyrchwyr ac asiantiaid cyn dyddiadau cau
		Ymateb i geisiadau ac ymholiadau gan y cyhoedd cyn dyddiadau cau.
2. Rydym yn sefydliad gyda sgiliau lle gwerthfawrogir amrywiaeth	Cynnal llesiant staff	Sgôr ymgysylltiad staff o’r arolwg cyflogai blynyddol
3. Rydym yn sefydliad sy’n dysgu, lle mae gwelliannau yn barhaus ac adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon	Cynydd mewn gwerth am arian	Argymhellion archwilwyr a weithredir erbyn y dyddiad targed

Dangosyddion sy'n cael eu datblygu a'i gosod ar gyfer 2022/23

Mae datblygu ein cynllun corfforaethol wedi amlygu nifer o feysydd perfformiad lle nad oes data addas wedi cael ei gasglu yn flaenorol neu lle nad oes data ar gael ar hyn o bryd. Mae ymchwil a datblygiadau ar gyfer dangosyddion posibl yn y meysydd isod yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, gyda'r nod i ystyried a gosod rhain ar gyfer 2022/23.

Amcanion strategol	Gwelliannau	Ardaloedd perfformiad
1. Cofrestru a phleidleisio hygyrch	Cynydd mewn lliniaru cofrestru a phleidleisio	Lefelau cofrestriadau pleidleiswyr newydd gan grwpiau sy'n ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn y broses ar hyn o bryd
		Pleidleiswyr cymwys/cofrestredig sydd yn bwrw eu pleidlais ac yn rhan o'r grwpiau sydd yn cael trafferth ymgysylltu yn y broses ar hyn o bryd
2. Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a cyllid gwleidyddol cydffurfiol	Cynnal y wybodaeth sydd ar gael	Cofrestr endidau a reoleiddir
	Lleihau rhwystrau rheoliadol ar gyfer ymgyrchu	Barn ymgyrchwyr ar reolau ariannol yn lleihau rhwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig i ymgyrchu
	Cynydd mewn hygrededd ymgyrchu	Barn pleidleiswyr ar hyder yn hygrededd ymgyrchu
3. Gwasanaethau etholiadol lleol gwydn	Cynnal safon gwasanaethau etholiadol	Barn gweinyddwyr etholiadol ar wydnwch gwasanaethau etholiadol
5. System etholiadol fodern a chynaliadwy	Gwell gwasanaeth cwsmer	Arolwg naidlen i ddefnyddiwr ar fodlonrwydd gydag ein gwefan a systemau
	Gwell diogelwch o amgylch y system etholiadol	Honiadau o dwyll etholiadol/trawiant diogelwch

Amcanion strategol	Gwelliannau	Ardaloedd perfformiad
	Gwell partneriaethau o fewn y system etholiadol	Prif ymgysylltiadau â phartneriaid
	Cynydd mewn cynaliadwyedd amgylcheddol	Pendantrwydd pan fo deddfwriaeth amgylcheddol yn ei le

Ffactorau allweddol	Gwelliannau	Ardaloedd perfformiad
1. Rydym yn arddangos annibyniaeth a hygrededd	Gwell enw da fel rheoleiddiwr annibynnol	Arolwg seneddol ar ein hannibyniaeth, enw da a boddhad gydag ein gwasanaethau
	Cynnal hyder yn y broses etholiadol	Barn pleidleiswyr ar ein enw da fel rheoleiddiwr annibynnol
2. Rydym yn sefydliad gyda sgiliau lle gwerthfawrogir amrywiaeth	Cynnal llesiant staff	Cyflogai wedi eu trefnu i gael hyfforddiant dysgu a datblygu[1]
		Hyfforddiant allanol a gynigir i gyflogai[1]
	Cynydd mewn amrywiaeth staff	Amrywiaeth comisiynydd a staff[1]

[1]Targed Comisiwn gyfan i gael ei osod

Ffactorau allweddol	Gwelliannau	Ardaloedd perfformiad
3. Rydym yn sefydliad sy'n dysgu, lle mae gwelliannau yn barhaus ac adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon	Cynydd mewn gwerth am arian	Costau â arbedwyd[1]
	Cynydd mewn cynaliadwyedd amgylcheddol	Fframwaith gwerth cyhoeddus[1]
		Defnydd Egni[1]
		Lefelau gwastraff ac ailgylchu[1]